

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

18 Tachwedd 2015

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)

Mr A Archer, Mr D Ellis, Cynghorydd ML Evans, Cynghorydd P Harries, Cynghorydd S Hudson, Mrs G Hayward, Cynghorydd L Jenkins, Cynghorydd R Kilmister, Cynghorydd RM Lewis, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd D Rees, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

[Cyrhaeddodd Ms C Gwyther cyn ystyried eitem 4(d)]

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.40pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth Mrs M Thomas.

2. Datgan Buddiannau

Datganodd y Cynghorydd P Morgan fuddiant personol yn adroddiad 47/15 ar Weithrediadau Meysydd Parcio ond arhosodd yn y cyfarfod a chwarae rhan lawn yn y drafodaeth. Datganodd y Cynghorydd RM Lewis fuddiant rhagfarnus yn yr un adroddiad, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23^{ain} o Fedi 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23^{ain} o Fedi 2015.

4. Materion yn codi

(a) Melin Caeriw – to newydd (Cofnod 5(a))

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau bod y gwaith o roi to newydd ar y felin wedi dechrau. Roedd pris y contractwr yn bris penodedig, gyda swm hapddigwyddiad yn rhan o'r pris. O ran gwerthu'r hen lechi a waredir, cafwyd ar ddeall bod y rhain yn perthyn i Ystâd Caeriw sydd wedi mynnu eu bod yn cadw perchnogaeth ar y llechi sydd heb eu difrodi, ac felly ni fyddai'n bosibl eu gwerthu i wneud iawn am gost y llechi newydd.

NODWYD.

(b) Adroddiad terfynol a chanfyddiadau Cyd Grŵp Craffu y Parciau Cenedlaethol ar yr Economi (Cofnod 5(b))

Ymddiheurodd y Prif Weithredwr nad oedd y Cynllun Gweithredu ar yr agenda y diwrnod hwnnw, a chadarnhaodd y byddai'n dod gerbron y cyfarfod nesaf. Fodd bynnag, roedd APC Eryri wedi trafod yr adroddiad yn ddiweddar, ac roedd copiâu wedi'u dosbarthu i'r rheiny yn Sir Benfro fu'n ymwneud â'r broses; byddai'r Cadeirydd hefyd yn cymryd copi i'w gyfarfod gydag Edwina Hart ar 25 Tachwedd.



NODWYD.

- (c) Cyllid yn y Dyfodol: Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol
Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau bod trafodaethau wedi bod ar y gweill ynglŷn â'r ffordd orau o sefydlu'r cwmni newydd, a phenderfynwyd mai cwmni atebolrwydd cyfyngedig fyddai'r ffordd orau ymlaen. Byddai'r cwmni hwn yn cael ei sefydlu yn y dyfodol agos, gan fod bwrdd cysgodol eisoes yn bodoli a bod y broses o recriwtio Prif Weithredwr y cwmni wedi dechrau. Ychwanegodd nad oedd o'r farn y byddai strwythur y cwmni yn cynyddu risg yr Awdurdod mewn unrhyw fodd.

NODWYD.

- (d) Her gyfreithiol i benderfyniad cynllunio
Dywedwyd bod yr apelyddion wedi penderfynu peidio â mynd â'r her gyfreithiol hon ymhellach. Roedd trafodaethau ar y gweill ynglŷn â chostau ac ati.

NODWYD.

5. Adroddiadau o amrywiol gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod gerbron yr Aelodau i'w hystyried / er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 12 Awst, 24 Awst a 30 Medi 2015
- (ii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 9 Medi 2015
- (iii) Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2015

6. Defnyddio Safle'r Parc Cenedlaethol yn y dyfodol yng Nghilrhedyn, Llanychaer

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Roger Thomas, Cadeirydd, a Geraint Davies Cyfarwyddwr Dros-dro Coed Cymru; a Ffion Farnell Cyfarwyddwr Tir Coed.

Atgoffwyd yr Aelodau bod presenoldeb gweithdy yng Nghilrhedyn wedi'i gwtogi yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd staff yn ymddeol ac arbedion ariannol. Dywedodd y swyddogion mai'r bwriad ar hyn o bryd y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol 2015-16 oedd cynnal y safle, yn bennaf fel canolfan i'r Wardeniaid a'r Parcmyn yn unig, gyda'r lle sy'n weddill yn cael ei gynnig i bartion sydd â diddordeb mewn perthynas gytundebol hyd braich rhwng Landlord a Tenant.

Roedd Coed Cymru wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â datblygu a gweithredu Cilrhedyn dros nifer o flynyddoedd, ac ym mis Gorffennaf eleni cyflwynodd Coed Cymru a Tir Coed (elusen sy'n gweithio i wella ansawdd bywyd yng nghefn gwlad Cymru drwy weithio mewn rheoli coetiroedd) eu gweledigaeth hwy ar gyfer dyfodol safle Cilrhedyn i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol. Roedd yr Awdurdod bellach wedi derbyn cynllun busnes, ac roedd copi ohono wedi'i ddsbarthu i'r Aelodau i'w ystyried; roedd cynrychiolwyr y ddau sefydliad yn bresennol yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw i amlinellu eu cynigion ac i ateb unrhyw gwestiynau.



Gan ddiolch i'r swyddogion ac i'r Aelodau am y cyfle i fynychu'r cyfarfod, dechreuodd Mr Thomas drwy esbonio bod Coed Cymru yn canolbwyntio ar reolaeth gynaliadwy o goetiroedd Cymru at ddibenion economaidd, a bod Tir Coed yn anelu at gyfuno materion cymunedol a choetiroedd ac i weithio gyda phobl dan anfantais sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell cefn gwlad. Roedd y cynnig oedd gerbron yr Awdurdod yn gwneud y mwyaf o'r hyn oedd yn gyffredin rhwng y ddau sefydliad drwy gynnig defnyddio Cilrhedyn i gynhyrchu dodrefn llwybrau, at ddibenion hyfforddi ac fel canolfan ar gyfer arloesedd coetiroedd a chynnyrch pren. Byddai'r prosiect yn cyd-fynd â'r amcanion a nodir yn y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn y Cynllun Datblygu Gwledig, ac roedd Mr Thomas yn cydnabod y byddai gofyn i gais am gymorth ariannol o'r Cynllun Datblygu Gwledig fod yn llwyddiannus cyn y gallai'r prosiect lwyddo. Fodd bynnag, y bwriad oedd gwneud y Ganolfan yn hyfyw yn ariannol mewn dim o dro. Roedd Bwrdd y ddau sefydliad o'r farn bod angen tair neu bedair canolfan debyg yng Nghymru, ac y byddai Cilrhedyn felly yn arloesi yn y maes hwn.

Wedyn rhoddodd Ffion Farnell, Cyfarwyddwr Tir Coed, gyflwyniad yn amlinellu'r nod ar gyfer Cilrhedyn, sef "Adfywio canolfan goetir Cilrhedyn a datblygu ei dyfodol i gynnal yr amgylchedd a phobl yr ardal. Bydd WiseWoods (yr enw posibl ar gyfer y prosiect) yn adeiladu ar y fenter bresennol ac yn datblygu'r egwyddor o gael 'Canolfan Coetiroedd', yn ymgysylltu â thirfeddianwyr lleol a'r cymunedau ehangach, gan ddarparu marchnadoedd lleol ar gyfer coed o goetiroedd a reolir yn dda, ac yn datblygu llwybrau i gyflogaeth i bobl leol." Rhagwelwyd y byddai pedair uned fusnes penodol, sef cynhyrchu gwaith pren, fyddai'n cynnwys giataiu a dodrefn parc, ynghyd â melino pren; uned hybu busnes coed fyddai'n cynnig cyfle i arloesi mewn cynnyrch, a chymorth i fentrau sy'n cychwyn ar waith pren; canolfan i weithgareddau a staff prosiectau; a swyddfeydd i staff y bartneriaeth.

Rhagwelwyd y byddai'r prosiect yn cael ei gyflawni mewn dau gam - sef cam ailstrwythuro cychwynnol (dwy flynedd) fyddai'n anelu at sefyllfa ariannol o adennill costau ac unioni'r fantol, i'w ddilyn gan gyfnod cyflenwi llawn pan fwriedir ehangu gweithgareddau a chynyddu masnachu drwy werthu yn allanol tra'n manteisio ar gyfleoedd ehangach yng Nghymru gyfan. Barnwyd bod hyn yn sefyllfa realistig yn hytrach nag un o anelu'n isel.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau am yr amcanestyniad llif arian oedd wedi'i roi, a hefyd nodwyd y potensial i fusnesau eraill a darparwyr addysg fod yn rhan o'r safle. Nodwyd anhawster yr Awdurdod i allu dylanwadu ar y dreth ar gyfer yr adeilad, fel y gofynnwyd yn y Cynllun Busnes, ond mynegodd swyddogion barodrwydd i helpu gymaint ag y bo modd. Ychwanegwyd mai eu gobaith oedd y gellid ymdrin ag elfennau eraill o'r cynllun, megis lle i'r parcmyn a thimau wardeniaid, fel rhan o'r trafodaethau manwl.

PENDERFYNWYD



- a) cadarnhau'r achos busnes a gyflwynwyd gan Coed Cymru / Tir Coed 'mewn egwyddor' a bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr i roi ar waith y trefniadau angenrheidiol i brydlesu rhan o'r safle i Coed Cymru / Tir Coed erbyn Mawrth 31, 2016 fan bellaf (yn amodol ar ddadansoddiad llawn o'r cynllun busnes diwygiedig);
- b) cytuno i leihau'r gweithgareddau presennol yng Nghilrhedyn (o ran y ganolfan goetir/melin lifio) er mwyn cwrdd â'r targedau cyllidebol ar gyfer 2016-17 a chadarnhau hysbysebu'r adeilad a'r iard sy'n weddill ar y farchnad agored pe bai opsiwn Tir Coed / Coed Cymru yn methu.

[Datgelodd y Cynghorydd P Morgan fuddiant personol yn yr adroddiad canlynol ond arhosodd yn y cyfarfod a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth; datgelodd y Cynghorydd RM Lewis fuddiant rhagfarnus, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.]

7. Gweithrediadau Meysydd Parcio

Roedd adroddiad y Rheolwr Busnes a Pherfformiad yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran gweithrediadau meysydd parcio yr Awdurdod gan egluro bod hyn wedi cael ei ystyried gan y Grŵp Aelodau Gorchwyl a Gorffen ar feysydd parcio, a chyflwynwyd eu casgliadau ar gyfer newidiadau yn y drefn o reoli meysydd parcio yr Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried.

Roedd Cadeirydd y Grŵp o'r farn bod y broses wedi gweithio'n dda, ac mai da o beth oedd derbyn gwybodaeth a chyfnewid syniadau er mwyn helpu i ddatblygu cynigion. Gan ddiolch i'r Grŵp am eu cyfarwyddyd clir a'u trafodaethau defnyddiol, estynnodd y swyddog groeso i Marc Owen o Gyngor Sir Penfro (CSP), oedd wedi bod yn rhan o lunio Gorchymyn Parcio diwygiedig yr Awdurdod, i ateb unrhyw gwestiynau.

Roedd y materion a ystyriwyd gan y grŵp gorchwyl a gorffen wedi'u nodi yn yr adroddiad, ac arweiniodd y swyddog yr Aelodau drwy bob un o'r materion hynny yn eu tro. Mynegodd sawl Aelod eu cefnogaeth i'r egwyddor o gael mwy o gysondeb a'r gallu i drosglwyddo tocynnau rhwng meysydd parcio y Parc Cenedlaethol a CSP. Bu peth trafodaeth ar nifer o bwyntiau, yn arbennig y ddarpariaeth i barcio am ddim am hanner awr i 'bicio i'r siop', a chyflwyno codi tâl o £1 yr awr hyd at uchafswm o £5 y dydd. O ran y rôl 'cennad gwybodaeth' arfaethedig, roedd Aelodau'r Gweithgor fu'n edrych ar ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr o'r farn y byddai cytuno i gynnig cymorth i ariannu'r cyfryw rôl yn gynamserol o gofio y byddai'r Grŵp yn ystod y misoedd nesaf yn edrych ar sut y dylai gwybodaeth gael ei darparu ar draws yr Awdurdod.

Hefyd cwestiynwyd y gost o orfodi drwy'r Cyngor Sir. Cadarnhaodd swyddogion bod £12,500 wedi'i dalu am gyfnod prawf o bum mis dros fisoedd yr haf. Serch hynny, gwelwyd cynnydd yn y refeniw ar draws y meysydd parcio lle'r oedd gorfodaeth ar hap wedi digwydd. Hefyd nodwyd, fel y nodwyd yn yr adroddiad, na ellid gweithredu pob un o'r



cynigion hyd nes bod newidiadau pellach wedi'u gwneud i'r gorchymyn parcio oddi ar y stryd. Byddai hyn yn destun ymgynghori, ac oherwydd hynny efallai na fydd rhai o'r newidiadau yn cael eu gweithredu y tymor nesaf.

Gan gymryd yr argymhellion yn unigol, **PENDERFYNWYD:**

:

- a) cymeradwyo'r newidiadau canlynol cyn gynted ag sy'n ymarferol ac yn amodol ar y diwygiadau perthnasol i'r gorchymyn parcio oddi ar y stryd:
 - i) cynyddu tâl a godir ar fysiau i £8 y dydd;
 - ii) cyflwyno tocynnau 'picio i'r siop' am ddim am hanner awr mewn rhai meysydd parcio, i gynnwys Traeth Poppit a Threfdraeth;
 - iii) cyflwyno tocyn tymor dilys mewn un maes parcio penodedig am £25;
 - iv) gwaredu trosglwyddo tocynnau rhwng meysydd parcio y Cyngor Sir a meysydd APCAP;
 - v) gosod peiriannau talu ac arddangos yn Nhrefdraeth a Thraeth Poppit, a chyfeirio darparu cenhadon gwybodaeth ym Mhoppit at y Gweithgor Darparu Gwybodaeth i Ymwelwyr;
 - vi) trafod gyda Chyngor Sir Penfro i gynnwys meysydd parcio APCAP yn y pasbort parcio a chynlluniau tebyg.
- b) Peidio â chyflwyno codi tâl o £1 yr awr hyd at uchafswm o £5 ym mhob maes parcio ar hyn o bryd.
- c) Cytuno â'r cynigion canlynol yn amodol ar ymgynghori, trafod a chyd-drafod â phartneriaid perthnasol cyn cael eu cyflwyno gerbron yr Aelodau i'w cymeradwyo mewn cyfarfod yn y dyfodol:
 - i) Gosod peiriannau talu ac arddangos yn Solfach, a chyfeirio darparu cennad gwybodaeth at y Gweithgor Darparu Gwybodaeth i Ymwelwyr;
 - ii) Cyflwyno codi tâl yn Llanrath, Penalun, West Angle a Nolton Haven;
 - iii) Cyd-drafod gyda Chyngor Sir Penfro i baratoi gorchymyn parcio oddi ar y stryd diwygiedig yng ngoleuni'r uchod ac i ddatblygu cytundeb lefel gwasanaeth i reoli'r meysydd parcio.

8. Safle Hostel Ieuenctid Skrinkle Haven: Gwaredu'r Rhydd-ddeiliadaeth

Dywedwyd bod yr Awdurdod yn berchen ar gryn dipyn o dir rhydd-ddaliad yn Skrinkle Haven oedd wedi'i brynu gyda meddiant gwag llawn er mwyn diogelu mynediad i'r cyhoedd i'r tiroedd clogwyn ac i hwyluso dymchwel adeiladau milwrol diangen a gweddillion hen safle gwaith trin carthion. Cafodd un o'r adeiladau milwrol segur ei newid a'i addasu i ddiwallu anghenion y Gymdeithas Hosteli Ieuenctid (YHA) y maent wedi parhau i'w redeg o dan brydles gan yr Awdurdod. Roedd rhan o fuddiant rhydd-ddaliadol yr Awdurdod hefyd yn cynnwys hawl tramwy oedd yn golygu



cyfrifoldeb llawn am gynnal-a-chadw ac atgyweirio, oedd yn rhwymedigaeth hirdymor sylweddol. Roedd trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r YHA eu bod yn prynu rhydd-ddeiliadaeth y tir y maent yn ei brydlesu oddi wrth yr Awdurdod, gan gynnwys y ffordd fynediad ar ei hyd. Roedd y partïon wedi cytuno y byddai unrhyw drosglwyddiad o'r fath yn cynnwys cyfyngu ar y defnydd o'r tir dan sylw yn y dyfodol i'r hostel ieuencid a chadw hawl tramwy er budd yr Awdurdod ar y tir sy'n weddill heb unrhyw atebolrwydd cynnal-a-chadw parhaus neu yn y dyfodol.

Mynegodd un Aelod rhywfaint o bryder nad oedd y fargen y cytunwyd arni yn un dda i'r Awdurdod gan holi a allai'r tir gael ei werthu i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol er mwyn adennill rhywfaint o'r arian.

PENDERFYNWYD bod argymhelliad y Grŵp Eiddo a Phrosiectau ar gyfer gwerthu'r tir oedd wedi'i liwio'n goch ar y map oedd wedi'i gynnwys gyda'r adroddiad, gan gynnwys y ffordd fynediad ar ei hyd rhwng 'A' a 'B' i'r Gymdeithas Hosteli Ieuencid am bris o £12,500 yn amodol ar yr Awdurdod yn cael ei ryddhau yn barhaol o unrhyw atebolrwydd parhaus i gynnal y ffordd fynediad rhwng 'A', 'B' ac 'C', yn neilltuo'r hawl i gael mynediad er budd y tir a gedwir gan yr Awdurdod ar hyd y ffordd fynediad rhwng 'A', 'B' ac 'C', a chyfyngu ar y defnydd a wneir o'r tir yn y dyfodol at ddefnydd Hostel Ieuencid.

9. **Safle Clwb Carafanau Freshwater East: Adnewyddu Prydles a Gwaith Uwchraddio'r Safle**

Dywedwyd bod y cyfleusterau ar y safle a enwir uchod wedi dyddio a bod y Clwb Carafanau, oedd yn prydlesu'r safle, yn bryderus os na wneir gwaith uwchraddio y byddai nifer y deiliaid yn gostwng yn barhaus fyddai'n effeithio'n negyddol ar yr economi leol sy'n seiliedig ar ymwelwyr. Byddai'r incwm rhent sy'n seiliedig ar drosiant a dderbynnir gan yr Awdurdod hefyd yn cael ei effeithio'n andwyol gan unrhyw ddirywiad tymor hir. I atal a gwrthdroi'r duedd honno, roedd y Clwb Carafanau yn bwriadu gwneud buddsoddiad cyfalaf o rhyw £1.2 miliwn i uwchraddio'r cyfleusterau ar y safle yn ystod y gaeaf. Nid oedd y Clwb yn barod i wneud y buddsoddiad cyfalaf hwn dan delerau eu prydles bresennol, ac felly roedd y swyddogion wedi dod i gytundeb cynderfynol gyda'r Clwb i ildio eu prydles bresennol a chaniatáu prydles newydd yn dechrau ar y 1^{af} o Ionawr 2016.

PENDERFYNWYD cadarnhau argymhelliad y Grŵp Eiddo a Phrosiectau i ildio ac adnewyddu prydles y Clwb Carafanau ar y telerau a nodwyd yn yr adroddiad i gynnwys caniatâd yr Awdurdod yn ei swyddogaeth fel Landlord y Clwb Carafanau i wneud y gwaith o uwchraddio a gwella'r safle yn unol â'r caniatâd cynllunio rhif NP/15/0401.

10. **Polisi Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo**



Dyweddod y Rheolwr Cyllid fod y ddogfen uchod yn disodli'r Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd blaenorol a'i bod yn ymgorffori'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth llwgrwobrwy oedd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf Llwgrwobrwy 2010. Roedd y ddogfen yn diffinio safbwynt yr Awdurdod o ran twyll a llwgrwobrwy, yn manylu ar y strategaeth y byddai'n ei dilyn i leihau'r risgiau, yn disgrifio'r gweithdrefnau ar ganfod ac ymchwilio, ac yn rhoi cynllun ymateb manwl i'w ddilyn os yw twyll a/neu llwgrwobrwy yn cael ei amau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Polisi Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwy.

11. Adolygiad o Dirweddau Dynodedig

Atgoffwyd yr Aelodau bod Gweinidog Cyfoeth Naturiol Cymru, fis Medi 2014, wedi comisiynu Panel Annibynnol i gynnal adolygiad o dirweddau dynodedig yng Nghymru. Roedd copi o'r adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi ac wedi'i ddsbarthu i'r Aelodau. Roedd 69 o argymhellion yn yr adroddiad sy'n cwmpasu lluo o gynigion ac arsylwadau ar ddibenion, egwyddorion, gweledigaeth, modelau llywodraethu, cynllunio ac ariannu.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod angen gwneud gwaith pellach yn awr oherwydd maint a chwmpas yr argymhellion i ddeall eu buddiannau posibl a'u canlyniadau. Roedd yr Arglwydd Dafydd Ellis-Thomas AC wedi'i benodi i arwain Gweithgor Tirweddau'r Dyfodol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr y parciau cenedlaethol, AHNE, grwpiau buddiannau, busnesau a llywodraeth leol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai yntau a'r Cadeirydd yn mynychu Seminar ar yr 20^{fed} o Dachwedd lle byddai'r camau nesaf yn cael eu trafod.

Wrth grynhoi, roedd yr Aelodau o'r farn bod yr adroddiad yn brin o dystiolaeth ar gyfer rhai o'r casgliadau y daethpwyd iddynt gan fynegi pryder ynghylch y model llywodraethu a gynigir yn yr adroddiad - lle byddai dwy ran o dair o aelodaeth yr Awdurdod yn penodi'r drydedd ran sy'n weddill; barnwyd bod yr enw newydd arfaethedig 'Tirweddau Cenedlaethol Cymru' yn rhy amwys; geiriad aneglur y trydydd diben arfaethedig; ac nad oedd angen i'r dynodiad gynnwys yr ardaloedd morol gan fod y rhain eisoes yn cael eu rheoleiddio'n ddigonol.

NODWYD.

12. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Blynyddol Drafft 2016/17

Dyweddwyd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi Adroddiad Blynyddol drafft ar y lefel arfaethedig o gyflogau i Aelodau yn 2016/17 ar gyfer ymgynghori. Roedd rhannau perthnasol o adroddiad y Panel ynghlwm er gwybodaeth i'r Aelodau, ond, yn ei hanfod, roedd y Panel wedi penderfynu na fyddai unrhyw gynnydd yn lefel y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod o ystyried y



cyfyngiadau parhaus ar wariant llywodraeth leol. Fodd bynnag, roedd ad-dalu costau llety wedi cynyddu ychydig.

Cynigiwyd ac eiliwyd cyflwyno ymateb i'r Panel yn datgan bod yr Awdurdod yn croesawu'r ddarpariaeth ar gyfer ad-dalu costau gofal a'r cyfle i benderfynu ar lefel y tâl sydd i'w dalu, gan nodi y byddai o blaid argymhell y lefel isaf. Fodd bynnag, ni chafodd y cynnig hwn ei basio.

PENDERFYNWYD peidio â chyflwyno ymateb i Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

